Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Briff polisi
Mawrth 2026

# Model unigryw ar gyfer y gwasanaeth prawf yng Nghymru

## Dull Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatganoli cyfiawnder i Gymru, ac wedi dechrau paratoi'n ddiweddar i wneud hynny fesul cam, gan ddechrau gyda chyfiawnder ieuenctid a'r system brawf. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn trafod y posibilrwydd o fabwysiadu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y system brawf (Irranca-Davies, 2025).



I gefnogi'r paratoadau hyn, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) archwilio'r elfennau ymarferol a'r mecanweithiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae hyn yn dilyn gwaith blaenorol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a sefydlodd opsiynau ar gyfer datganoli'r system brawf, ac enghreifftiau o sut mae gwledydd eraill yn Ewrop wedi trefnu eu systemau prawf (Price, Notman a Tilley, 2024; Notman, Price a Tilley; 2024).

Aeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ati i gynnal 17 o gyfweliadau ag ymarferwyr, arbenigwyr a rhanddeiliaid yn y system brawf; i adolygu llenyddiaeth; ac i gynnal gweithdai a chyflwyniadau i gasglu barn a gwybodaeth am Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y system brawf. Gwnaethom edrych ar dair thema allweddol:

1. Llywodraethu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth;
2. Y ffactorau perthynol, a oedd yn cynnwys gweithio gyda darparwyr gwasanaethau a phartneriaid allweddol eraill; a
3. Ffactorau gweithredol, fel defnyddio Memoranda Cyd-ddealltwriaeth i reoli contractau ac i hwyluso darpariaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Ni wnaethom unrhyw benderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Fodd bynnag, mae ein hadroddiad yn canfod bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ffordd ymarferol a phragmatig o gryfhau ymreolaeth leol; ymwreiddio gwaith partneriaeth; a darparu gwasanaethau prawf ymatebol.

Mae'r briff polisi hwn yn nodi prif ganfyddiadau ac argymhellion ein hadroddiad.

## Deall Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gytundeb ffurfiol rhwng dau barti i hwyluso'r cydweithio rhyngddynt, ond nid ar sail gyfreithiol rwymol. Yr enghraifft amlycaf ym maes gwasanaethau prawf yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd ar waith ym Manceinion Fwyaf.

Ym Manceinion Fwyaf, mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud yn bennaf â chyd-gomisiynu gwasanaethau (ee, cymorth ar gyfer cyffuriau ac alcohol) i bobl sydd ar brawf. Mae hyn wedi galluogi Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf i gomisiynu gwasanaethau yn unol â'i flaenoriaethau, ac i gysoni'r ddarpariaeth pan fydd yn briodol.[1]

Bydd cwmpas Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yng Nghymru, os cytunir ar un, yn cael ei bennu yn ystod y trafodaethau, a gallai fod yn fwy eang na'r modelau presennol ym Manceinion Fwyaf ac mewn mannau eraill.

## Llywodraethu

Mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth yn gyflymach ac yn haws i'w rhoi ar waith nag opsiynau deddfwriaethol ar gyfer datganoli, ond maent yn dal yn ymdrechion hirfaith a chymhleth sy'n gofyn am negodi a chynllunio gofalus.



Dangosodd ein hymchwil y bydd angen rheoli ystyriaethau gwleidyddol yn ofalus, gan gynnwys blaenoriaethau gwahanol gan wahanol randdeiliaid ac anghysondeb rhwng buddiannau'r gwasanaeth prawf a'r cyfeiriad gwleidyddol. Gall strwythurau llywodraethu sy'n glir, yn gymesur, ac yn rhoi lle i ymreolaeth leol sicrhau bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Mae ymwreiddio gwaith partneriaeth, yn enwedig ar lefel leol, yn fantais allweddol y gellir ei chyflawni drwy strwythurau llywodraethu da; gan adeiladu ar y partneriaethau presennol pan fydd hynny'n bosibl.

Dylid datblygu a gweithredu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth mewn modd ailadroddus, gyda chyfrifoldebau a mecanweithiau llywodraethu sy'n esblygu dros amser. Dylid rhoi strwythurau ar waith i sicrhau'r hyblygrwydd hwn, a allai gynnwys hyblygrwydd cyllidebol; cyfleoedd ar gyfer cyllid lleol; a strwythurau llywodraethu sy'n cynnwys yr holl lofnodwyr sydd eu hangen i addasu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

### Argymhellion

- Sefydlu fframwaith llywodraethu clir gyda rolau a chyfrifoldebau diffiniedig yn gynnar yn y broses ddatblygu drwy drafodaeth dryloyw, y gellir ei ailadrodd ar sail y gwersi a ddysgir wrth i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gael ei roi ar waith.
- Dylai mecanweithiau llywodraethu fod yn gymesur â'r partneriaethau, y dulliau gweithredu a'r canlyniadau a ddymunir, a'u gwneud yn bosibl. Pan fydd y mecanweithiau hyn ar waith, dylid eu profi a'u haddasu pan fydd angen i sicrhau eu bod yn cyflawni'r nod hwn.
- Ymwreiddio gwaith partneriaeth i fynd i'r afael â blaenoriaethau a gofynion y gwasanaeth. Adeiladu ar y partneriaethau llwyddiannus presennol a chynnwys partneriaid statudol fel yr heddlu, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ochr yn ochr â darparwyr trydydd sector a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol.
- Meithrin cydbwysedd rhwng goruchwyliaeth weithredol

[1] Gweler Price, Notman a Tilley (2024) am enghreifftiau.

genedlaethol ac ymreolaeth leol, gan gydnabod y bydd angen cydbwyso cysondeb cenedlaethol â hyblygrwydd i ddiwallu anghenion rhanbarthol a gwledig.
- Sicrhau bod lleisiau pawb sy'n gysylltiedig, gan gynnwys dioddefwyr a phobl sydd ar brawf, yn cael eu clywed.
- Dylai llywodraethu ar lefel genedlaethol gynnwys y llofnodwyr sydd eu hangen i ddiwygio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau partneriaeth, gydag ymarferwyr prawf yn ymddiried mewn awdurdodau dirprwyedig ac yn llofnodwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

## Perthynol

Gellir ystyried Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel adnodd ar gyfer rheoli a meithrin perthnasoedd rhwng gwahanol bartïon, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau.

Mae'n gallu cymryd amser i feithrin ymddiriedaeth, ond mae'n cael ei ystyried yn hanfodol i lwyddiant Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a gall helpu i gysoni gwerthoedd, canlyniadau a thargedau ar draws sefydliadau, sy'n cael ei ystyried yn ffactor allweddol er mwyn llwyddo. Os gwelir nad yw blaenoriaethau a gwerthoedd yn cyd-fynd, mae'n anoddach rhoi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith yn llwyddiannus. Unwaith eto, mae defnyddio'r partneriaethau presennol fel sail i berthnasoedd newydd yn gallu bod yn ffordd effeithiol o feithrin cefnogaeth ar gyfer Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Dylai gwasanaethau gyfathrebu â'i gilydd yn glir ac yn gyson, gyda mecanweithiau ar waith i helpu i feithrin perthnasoedd dyfnach a mwy cydnaws.

Mae dangos llwyddiant drwy ddechrau ar raddfa fach, naill ai o ran ardal neu gwmpas, ac yna ehangu yn gallu ennyn cefnogaeth partneriaid ar gyfer Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Gellid ystyried gwneud hynny ochr yn ochr â defnyddio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn wirfoddol at ddibenion comisiynu.

### Argymhellion

- Adeiladu ar y partneriaethau llwyddiannus presennol drwy ddod â'r holl randdeiliaid at ei gilydd yn ystod y cam datblygu i sefydlu gweledigaeth a nodau ar y cyd, gan gydberchnogi canlyniadau.
- Creu sianeli cyfathrebu clir rhwng gwasanaethau i helpu i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd a chryfhau'r gwaith partneriaeth.
- Meithrin cydweithio drwy fecanweithiau fel secondiadau, rolau pontio, a 'broceriaid gonest'.
- Dechrau gyda meysydd ffocws llai (ee, carfan benodol o bobl neu thema drawsbynciol fel cyflogadwyedd neu ddigartrefedd) i brofi'r dull gweithredu ac ennyn cefnogaeth nifer o bartneriaid.
- Gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd ac egwyddorion cyffredin, gan gynnwys blaenoriaethu adsefydlu.
- Ystyried cynnig y trefniant Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel dewis yn hytrach na gofyniad gorfodol, er mwyn annog cydweithio gwirioneddol.

## Gweithredol

I roi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith, rhaid ymdrin yn ofalus â chyd-destun cymhleth darpariaeth, llywodraethu a diwylliannau sefydliadol, yn ogystal â'r angen i ddiwallu anghenion pobl ar draws gwahanol rannau o Gymru.

Gellir defnyddio Memoranda Cyd-ddealltwriaeth i reoli risg o ran rheoli contractau; gallant helpu i ddiffinio cyfrifoldebau'n glir; a chynnig y gallu i

gynnal Cytundebau Rhannu Gwybodaeth sy’n galluogi trydydd parti i ddarparu gwasanaeth, ac yn gwella’r gwasanaeth hwnnw.

Un o fanteision allweddol Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw galluogi ymarferwyr i ymateb i anghenion lleol drwy gomisiynu gwasanaethau sy’n targedu ac yn ymateb i’r anghenion hynny. Felly, bydd rhywfaint o ymreolaeth leol wrth gomisiynu yn hanfodol i lwyddiant Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Bydd dulliau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chysoni ac integreiddio gwasanaethau, hefyd yn gwella canlyniadau i swyddogion prawf a phobl ar brawf, a dylid eu hystyried fel rhan o broses Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

## Argymhellion

- Sicrhau bod dulliau caffael a rheoli contractau yn caniatáu digon o hyblygrwydd i gefnogi cyflenwyr trydydd sector lleol, gan gadw atebolrwydd a goruchwyliaeth gadarn ar yr un pryd.
- Cynnwys mudiadau trydydd sector yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Negodi a sefydlu Cytundebau Rhannu Gwybodaeth fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn helpu asiantaethau i rannu data sy'n benodol i Gymru â’i gilydd, galluogi parhad gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau prawf a’u personoli, a helpu’r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Galluogi'r staff i gael mwy o ymreolaeth er mwyn gwella gwasanaethau a helpu’r staff i ddarparu atebion lleol, er enghraifft caniatáu iddynt ddewis y darparwr lleol priodol yn hytrach na gweithredwyr cenedlaethol neu ranbarthol.
- Sicrhau bod blaenoriaethau cyflawni a strategaeth leol yn cael eu llywio gan ddata cyfiawnder troseddol sy'n benodol i Gymru.
- Mapio'r nifer o fannau cyswllt sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws gwahanol asiantaethau i integreiddio llwybrau a dangos sut gallai gwasanaethau alinio.
- Datblygu strategaeth gyllido dryloyw dros sawl blwyddyn ar gyfer gwasanaethau prawf sy’n ystyried blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, cyfyngiadau'r modelau comisiynu presennol sydd ar waith ar draws y DU, a’r ‘ymylon anghyson’ sy’n cael eu creu gan ffiniau llywodraethu gwahanol.
- Archwilio modelau cyllido hyblyg, cyllid cyfun a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar grantiau i sicrhau ei bod yn haws i ddarparwyr llai yn y trydydd sector gael gafael ar gyllid.
- Rhoi mwy o bwyslais ar gyllidebau buddsoddi ac ailfuddsoddi unrhyw arbedion mewn rhaglenni eraill yng Nghymru, yn hytrach nag mewn meysydd a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU.

## Casgliad

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn opsiwn ymarferol a allai sicrhau manteision sylweddol i Gymru.

Bydd heriau i’w goresgyn wrth weithredu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a sefyllfa gymhleth i’w hystyried o ran llywodraethu, daearyddiaeth a diwylliannau sefydliadol, a bydd yn cymryd amser i gytuno ar ddull hyblyg ac ymarferol.

Fodd bynnag, gallai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth helpu i wella’r broses o ddarparu gwasanaethau prawf yng Nghymru, gan gynnwys drwy:

- Ymrwymiad ffurfiol i gydweithio a chyfuno risg rhwng partneriaid;
- Cyfleoedd ar gyfer datblygiadau strategol a lleol, gydag ymreolaeth i'r gweithlu ddatblygu atebion lleol arloesol;
- Lleihau effaith newidiadau gwleidyddol, neu newidiadau o ran staff, arnynt; a
- Sefydlu ymrwymiad cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'r farchnad gymysg o fewn paramedrau clir.

Bydd integreiddio'r hyblygrwydd i ailadrodd, addasu neu wella'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn helpu i sicrhau y gellir adeiladu ar lwyddiannau, heb atal diwygiadau pellach i'r gwasanaeth neu ddatganoli yn nes ymlaen.

## Cyfeiriadau


Irranca-Davies, H. AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. (2025). **Datganiad Ysgrifenedig: Paratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder.** Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd o: [https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-paratoi-ar-gyfer-datganoli-cyfiawnder](https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-paratoi-ar-gyfer-datganoli-cyfiawnder)

Notman, G., Price, J., a Tilley, H. (2024). **Adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig: Rhan 2: Cymharu gwledydd.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: [https://wcpp.org.uk/cy/report/adeiladu-gwasanaeth-prawf-cymreig/](https://wcpp.org.uk/cy/report/adeiladu-gwasanaeth-prawf-cymreig/)

Price, J., Notman, G., a Tilley, H. (2024). **Adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig: Rhan 1: Modelau a llwybrau.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: [https://wcpp.org.uk/cy/report/adeiladu-gwasanaeth-prawf-cymreig/](https://wcpp.org.uk/cy/report/adeiladu-gwasanaeth-prawf-cymreig/)


## Rhagor o wybodaeth

I weld yr adroddiad llawn gweler: Netana, C., Price, J., Tilley, H. a Filipaș, I.. (2026). **A Welsh way for probation: A Memorandum of Understanding approach**.

## Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi cyngor annibynnol a thystiolaeth o ansawdd da i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, i'w helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Rwydwaith What Works y DU.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:


**Jack Price**

+44 (0)29 2087 5345

[jack.price@wcpp.org.uk](mailto:jack.price@wcpp.org.uk)



Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy 029 2087 5345

info@wcpp.org.uk @WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd · UKRI Economic and Social Research Council · Llywodraeth Cymru / Welsh Government